Rhif: **WG25889**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Dyddiad cyhoeddi: **Awst 2015**

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg uwch eraill ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad. |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru am reoliadau arfaethedig yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* (2015)<br>www.gov.wales/docs/dcells/consultation/150317-consultation-cy1.pdf |

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25889 ISBN digidol 978 1 4734 4240 5

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cefndir | 2 |
| Crynodeb o'r newidiadau | 3 |
| Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015 | 4 |
| Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 | 5 |
| Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 | 7 |
| Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015 | 8 |
| Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 | 10 |
| Materion cyfansoddiadol eraill | 10 |

## Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau i weithredu elfennau o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Mae'r rheoliadau'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio a ddarperir gan y Ddeddf yn cael ei weithredu'n effeithiol.

2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 17 Mawrth 2015 a 12 Mai 2015 ynglŷn â phum set o reoliadau:

- Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) 2015.

3. Cafwyd cyfarfodydd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('y Cyngor Cyllido') a Phrifysgolion Cymru (Cyngor Cenedlaethol o Universities UK) yn ystod y cyfarfod ymgynghori. Daeth naw ymateb i gyd. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r rheoliadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Daeth ymatebion gan:

- Estyn
- Prifysgolion Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd;
- Prifysgol Aberystwyth;
- Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant;
- Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr/Gweithredu dros Blant;
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

4. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Gofynnodd nifer fechan o ymatebwyr i'w hymatebion fod ar gael i feysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd hyn. Roedd ymateb y Brifysgol Agored yn ymwneud yn bennaf ag unrhyw estyniad i'r rheoliadau i addysg uwch ran-amser, ac roedd yn nodi'r angen i ymgynghori ymhellach os bydd hynny'n digwydd. Cafodd yr ymateb ei ddadansoddi'n ofalus ond nid oedd unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r rheoliadau drafft ac ni chaiff ei gynnwys isod (ond fe gaiff ei ailystyried os cynigir ymestyn y rheoliadau i ddarpariaeth ran-amser yn y dyfodol). Hefyd, nid oedd yr ymateb gan Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr/Gweithredu dros Blant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rheoliadau drafft; gwnaethpwyd nodyn ohono ond ni chaiff ei gynnwys isod.

## Crynodeb o'r newidiadau

5. Mae'r newidiadau a ddisgrifir isod wedi cael eu gwneud i'r rheoliadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

*Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015*

6. Cafodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl ynglŷn ag un agwedd benodol ar y rheoliadau hyn, ac mae hyn wedi arwain at ailddrafftio elfennau o'r rheoliadau. Yn benodol, ailedrychwyd ar y rhyngweithio rhwng dau reoliad: i) y materion i gael sylw gan y Cyngor Cyllido wrth ystyried cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad ai peidio (rheoliad 7 o'r rheoliadau drafft) a'r wybodaeth i'w darparu gyda chais (rheoliad 3). Nodwyd bod rheoliad 3, neu y dylai fod, yn ymwneud yn unig â'r wybodaeth i'w darparu fel rhan o gais ac nad oedd mor glir ag y dylai fod mai felly yr oedd. Mae rheoliad 7 yn ymwneud â'r materion y mae'n rhaid i'r Cyngor Cyllido eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ynteu wrthod cais cynllun ffioedd a mynediad. Fel y drafftiwyd yn wreiddiol, roedd rheoliad 7 yn croesgyfeirio rheoliad 3.

7. Diwygiwyd rheoliad 7 er mwyn cynnwys yn glir y meysydd y darperir gwybodaeth amdanynt dan reoliad tri fel materion wrth benderfynu p'un ai derbyn ynteu wrthod cynllun ffioedd a mynediad. Ailddrafftiwyd rheoliad 3 fel ei bod yn fwy eglur ei fod yn ymwneud â'r wybodaeth i'w darparu fel rhan o gais.

8. Yr effaith gronnus yw sicrhau mwy o eglurder ynghylch y materion i'w hystyried gan y Cyngor Cyllido wrth ystyried p'un ai cymeradwyo ynteu wrthod cais am gynllun ffioedd a mynediad, a'r wybodaeth sy'n gorfod cefnogi cais.

*Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015*

9. Mae'r rheoliadau drafft wedi newid, yn rhannol o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Gwnaethpwyd un newid bach o ganlyniad i'r ymgynghoriad (symud y teitl cyn paragraff 10 o'r Atodlen; gwnaethpwyd newid tebyg i'r penawdau cyn paragraffau 3 a 7). Ychwanegwyd dau reoliad am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad (mae'r cyntaf yn ymwneud ag ystyr 'a ddarperir yng Nghymru' mewn cysylltiad ag adrannau 5(2)(b) ac 17(1) o'r Ddeddf, ac mae'r ail yn ymwneud â thrin cynlluniau ffioedd a mynediad a ddaw i law cyn i'r cyfnod trosglwyddo gychwyn ond a gymeradwyir wedi hynny). Newidiwyd rheoliad 3 i sicrhau nad yw 'a ariennir yn gyhoeddus' yn faen prawf wrth bennu cyrsiau cymhwysol. Yn olaf, mae'r diffiniad o flwyddyn academaidd yn rheoliad 2 wedi symud i'r Atodlen. Mae teitl y rheoliadau wedi newid yn unol â hyn.

*Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015*

10. Mae'r rheoliadau drafft wedi newid, o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Nododd yr ymatebwyr nad oedd diffiniad o un rhan o'r broses, sef yr amserlen i'r Panel Adolygu lunio adroddiad. Gwnaed newid i'r rheoliadau ar gyfer hyn. Nawr bydd y Panel Adolygu yn darparu amserlen a ragwelir i'r Cyngor Cyllido a chorff llywodraethu'r sefydliad a reoleiddir, ar gyfer ei adolygiad.

11. Hefyd, nododd rhai ymatebwyr mai prin oedd y cyfle i ryngweithio gyda'r Panel Adolygu a rhoi sylwadau iddo. Mae'r rheoliadau drafft yn caniatáu i'r Panel Adolygu ofyn am ragor o wybodaeth naill ai gan gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir neu'r Cyngor Cyllido. Newidiwyd y rheoliadau i ganiatáu i'r Panel Adolygu geisio rhagor o sylwadau ynghylch yr wybodaeth hon, petai'n dymuno.

12. Roedd pryder arbennig ynglŷn ag amseriad cyhoeddi cyfarwyddyd a ddyroddir mewn cysylltiad ag adran 11 o'r Ddeddf (cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu). Yn y drafft gwreiddiol, rhaid cyhoeddi cyfarwyddyd pan fydd yn cael ei ddyroddi. Caiff sefydliad a reoleiddir wneud cais am adolygiad, a gallai hyn olygu bod y Cyngor Cyllido yn penderfynu peidio â rhoi'r cyfarwyddyd. Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai 'niwed' diangen ddigwydd mewn amgylchiadau o'r fath. Newidiwyd y rheoliadau yng ngoleuni hyn. Nawr, yn achos gwneud cais am adolygiad, ni fydd cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi hyn oni fydd adolygiad yn gyflawn a'r cyfarwyddyd wedi cael ei roi.

13. Newidiwyd fymryn ar drefn y rheoliadau hefyd, gan symud y rheoliad sy'n ymwneud â dyroddi cyfarwyddiadau dan adran 11 o'r Ddeddf i ddiwedd y rheoliadau i roi eglurder i'r darllenydd. Yn olaf, manteisiwyd ar gyfle i ailddrafftio rhai rhannau o'r rheoliadau i wella eglurder; nid yw bwriad gwaelodol y polisi wedi newid.

14. Yr effaith gronnus yw osgoi 'niwed' o ganlyniad i gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n cael ei dynnu ymaith wedyn, a sicrhau mwy o eglurder ar broses y Panel Adolygu, a sicrhau ei bod yn fwy agored.

## Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015

15. Cafwyd sylwadau uniongyrchol gan bump o ymatebwyr ar y rheoliadau hyn.

16. Y prif bryder a fynegwyd ac a awgrymwyd gan yr ymatebion oedd bod y rheoliadau'n aneglur ynglŷn â'r math o ddarparwr y gellid ei ddynodi. Gwnaethpwyd nodyn o hyn. Diben y rheoliadau yw galluogi darparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n elusennol i wneud cais am ddynodiad fel sefydliad pryd na fyddent fel arall yn cael eu trin felly i ddiben y Ddeddf. Os cymeradwyir cais, gall y darparwr wneud cais am gynllun ffioedd a mynediad. (Nid yw'r rheoliadau'n ymwneud â dynodi 'darparwyr amgen' addysg uwch i ddibenion cymorth i fyfyrwyr.) Mae'r Nodiadau Esboniadol, sydd wedi eu cynnwys ym Memorandwm Esboniadol y Bil[1], yn darparu rhagor o esboniad ar y rhan hon o'r Ddeddf.

17. Fe wnaeth rhai ymatebwyr awgrymu ychwanegiadau i'r wybodaeth i'w darparu i gefnogi cais, gan gynnwys:

- cyfrifon ariannol;
- cyrff dyfarnu, pan fo ymgeisydd yn gwneud dyfarniadau gan fwy nag un corff;
- ardal y ddarpariaeth a darpariaeth y tu allan i Gymru;

[1] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9722

- y nifer o fyfyrwyr a ragwelir;
- y cam yn ei 'oes' y mae darparwr wedi ei gyrraedd a pha mor beryglus ydyw.

18. Caiff gwybodaeth ariannol ei hasesu gan y broses o wneud cais i gynllun ffioedd a mynediad. Mae gwybodaeth am y cyrff dyfarnu yn ofynnol yn ôl y rheoliadau (mae'r rheoliad yn awgrymu'r lluosog). Mae'r ardal yn ofynnol (i'r graddau y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn darparu addysg uwch yng Nghymru). Nid yw darpariaeth y tu allan i Gymru yn berthnasol i'r rheoliadau – nid yw'r Ddeddf ond yn ei gwneud yn ofynnol fod yr ymgeisydd yn dangos ei fod yn darparu addysg uwch yng Nghymru er mwyn cael ei ystyried ar gyfer dynodiad. Nid yw'r nifer o fyfyrwyr a ragwelir yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer dynodiad dan y Ddeddf. O ran perygl, unig fwriad y dynodiad yw galluogi darparwr i wneud cais am gynllun ffioedd a mynediad; os cymeradwyir cynllun bydd y darparwr yn dod yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

19. Gwnaethpwyd nifer o sylwadau pellach, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ei rhesymau dros gymeradwyo/gwrthod er mwyn helpu i ddarparu cysondeb dros amser ac i ddarparu tryloywder;
- y rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol fod ymgeisydd yn darparu gwybodaeth i ddangos na fyddai darparwr (heb y dynodiad) yn cael ei ystyried yn sefydliad i ddibenion y Ddeddf;
- mae'n bosibl y byddai perygl i Lywodraeth Cymru (drwy ddynodi) a'r Cyngor Cyllido (drwy gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad) ddod i wahanol gasgliadau ynglŷn â statws elusennol; a
- hefyd, efallai byddai yna ddyblygu wrth geisio casglu/darparu'r wybodaeth hon.

20. Ystyriwyd hyn yn ofalus, ond nodwyd nad oedd yr un ohonynt yn faterion i'r rheoliadau.

21. Roedd nifer o sylwadau'n ymwneud â'r canllawiau ar y broses ddynodi. Gwnaethpwyd nodyn o'r rhain.

22. Ni wnaethpwyd newidiadau i'r rheoliadau hyn o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

23. Cafwyd sylwadau ar y rheoliadau drafft hyn gan chwech o ymatebwyr.

24. Roedd cwestiwn tri yn holi a oedd yna unrhyw amgylchiadau lle na ddylai'r terfyn ffioedd fod yn berthnasol i gyrsiau a fyddai fel arall yn gyrsiau cymhwysol. Nid yw'n ofynnol cynnwys eithriad yn y rheoliadau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf yn cael ei weithredu'n

effeithiol, ond mae Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau nad yw'r rheoliadau'n arwain at ganlyniadau anfwriadol i godi ffioedd gan sefydliadau.

25. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai cyrsiau a gynigir i gwmnïau gael eu heithrio. Roedd dau ymatebydd yn galw'r rhain yn gyrsiau 'caeedig'; sef cwrs a gynigir i weithwyr cwmni neu aelodau o broffesiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r syniad y gallai cyrsiau o'r fath gael eu heithrio, mewn egwyddor. Ond bydd angen rhagor o waith datblygu polisi cyn ystyried unrhyw eithriad. Felly, ni fydd y rheoliadau'n cael eu diwygio ar hyn o bryd i gynnwys unrhyw eithriad, a chedwir at y sefyllfa bolisi bresennol.

26. Awgrymodd un ymatebydd y gallai eithrio rhai cyrsiau arwain at osod lefelau ffioedd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd nodwyd o hyn.

27. Roedd cwestiwn 4 yn gofyn am sylwadau eraill ar y rheoliadau hyn. Nododd un sylw fod pennawd yn yr atodlen yn cael ei ailadrodd (yn ymwneud â diffinio gwladolion yr UE). Newidiwyd y rheoliadau i hepgor hyn.

28. Gofynnodd un ymatebydd gwestiwn am y cytgord rhwng y diffiniad o 'bersonau cymhwysol' a'r personau hynny sy'n gymwys i dderbyn cymorth (gan awgrymu y dylent fod yr un fath). Dadansoddwyd y mater hwn yn ofalus. Yn gryno, mae'r diffiniadau wedi esblygu drwy wahanol iteriadau o'r rheoliadau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr a therfynau ffioedd. Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad oes unrhyw fater sy'n atal y polisi cyfredol rhag cael ei weithredu fel y bwriedir, ond mae'n bwriadu cadw'r rheoliadau perthnasol dan arolwg er mwyn penderfynu a ellir gwneud unrhyw welliant. Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau'n dyblygu'r rheoliadau cyfatebol presennol[2] yn hyn o beth gan nad yw'r polisi ar bersonau cymhwysol wedi cael ei newid.

29. Roedd sylwadau eraill yn nodi materion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr (a nodwyd ond nad ydynt yn fater i'r rheoliadau hyn) a'r cyrsiau addysg uwch y mae'r rheoliadau'n gymwys iddynt (sy'n unol â darpariaethau'r rheoliadau hyn a rheoliadau eraill).

30. Yn gryno, gwnaethpwyd un newid i'r rheoliadau hyn o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Efallai y bydd yr ymatebwyr yn dymuno nodi bod y rheoliadau wedi cael eu newid ers hynny i gynnwys darpariaeth ychwanegol yn ymwneud â rhai cyrsiau penodol a thrin y cynlluniau ffioedd a mynediad yn ystod y cyfnod pontio. Gwnaethpwyd newidiadau drafftio ychwanegol ac mae teitl y rheoliadau wedi newid yn unol â'r rheini.

---

[2] Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) O.S. 2011/691 (Cy.103).

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015

31. Cafodd y rheoliadau hyn fwy o sylwadau na'r un set arall o reoliadau, a hynny efallai oherwydd y rôl ganolog sydd gan y cynlluniau ffioedd a mynediad yn y fframwaith rheoleiddio.

32. Roedd cwestiwn pump yn holi a oedd yr ymatebwyr yn meddwl y dylai'r rheoliadau nodi'n fwy penodol yr hyn y gellid ei gynnwys mewn cynlluniau ffioedd a mynediad o ran hybu addysg uwch. Roedd yna deimlad cryf iawn na ddylent, 'galluogi' yn hytrach na 'rhagnodi' y dylai'r rheoliadau ei wneud yn y maes hwn. Nododd un ymatebydd nad oedd 'mynediad teg' yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf na'r rheoliadau; nid gofyniad newydd yw hwn. Nododd ymatebwyr eraill nad oedd diffiniad o 'hyfywedd ariannol'. Ni fwriedir rhagnodi yn y mater hwn, gan fod y Cyngor Cyllido eisoes wedi rhyngweithio'n helaeth gyda sefydliadau uwch ac mae ganddo wybodaeth helaeth amdanynt y gallai ei defnyddio wrth asesu hyfywedd ariannol. Mae'n bosibl y dyroddir canllawiau, ond ar yr ymgeisydd y bydd y cyfrifoldeb o hyd.

33. Roedd cwestiwn chwech yn gofyn am sylwadau eraill. Cafwyd rhai sylwadau fod yr wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â hyfywedd ariannol ac yn y blaen 'allan o le' mewn cynllun ffioedd a mynediad, ac roedd yn gwneud y ddogfen yn llai defnyddiol i fyfyrwyr a phartïon eraill â diddordeb. Er bod yn rhaid i'r wybodaeth ddod gyda'r cais ac y bydd yn ffactor wrth i'r Cyngor Cyllido benderfynu a ddylid derbyn ynteu wrthod cynllun ffioedd a mynediad, nid yw'n rhan o gynllun. Nododd un ymatebydd na ddylai gwybodaeth am ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr a chost cwrs yn ei grynswth gael ei chynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad; nid yw'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol fod cynllun ffioedd a mynediad yn cynnwys gwybodaeth o'r fath, ond rhaid iddo gynnwys darpariaeth ar gyfer darparu cymorth ac i roi gwybod i fyfyrwyr am ffioedd cwrs yn eu crynswth.

34. Roedd rhai ymatebwyr yn holi a ddylid cyfeirio'n uniongyrchol at ofynion y Ddeddf wrth asesu ceisiadau, neu hefyd, fod meini prawf o'r fath yn amherthnasol gan y bydd y Ddeddf yn sicrhau bod darparwr sydd â chynllun ffioedd a mynediad yn cael ei reoli'n dda, ac yn darparu addysg o ansawdd digonol ac yn y blaen. Mae Llywodraeth Cymru yn bendant fod yna wahaniaeth rhwng cymhwyso cynllun ffioedd a mynediad a rheoleiddio darparwr ar ôl cymeradwyo cynllun.

35. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd dim yn y rheoliadau'n rhwystro dal cymeradwyaeth yn ôl oherwydd materion bychain. Mae'r Cyngor Cyllido yn rhwym o weithredu'n rhesymol, ac nid oes angen newid y rheoliadau. Roedd yr un ymatebydd yn awgrymu y dylid cyfeirio'n glir at i) yr angen i gynnal rhyddid academaidd ac annibyniaeth sefydliadau a ii) yr angen i gynnal sector addysg uwch sy'n amrywiol. Mae'r cyntaf yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. O ran yr olaf, ni chredir bod y rheoliadau'n gwneud dim i beryglu hyn.

36. Gwnaethpwyd newidiadau i'r rheoliadau hyn. Cafodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad manwl am y rhyngweithio rhwng dwy ran o'r rheoliadau: i) y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor Cyllido dalu sylw iddynt wrth ystyried cais am gymeradwyaeth (rheoliad 7 o'r rheoliadau drafft) a'r wybodaeth i'w darparu gan ymgeisydd (rheoliad 3). Nododd yr ymatebydd fod rheoliad 7 yn croesgyfeirio rheoliad 3. Nodwyd bod rheoliad 3, neu y dylai fod, yn ymwneud yn unig â'r wybodaeth i'w darparu fel rhan o gais ac nad oedd yn glir mai felly yr oedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddrafftio'r rheoliadau fel y bo rheoliad 3 yn ymwneud yn awr â gwybodaeth i'w darparu a bod rheoliad 7 yn cynnwys yr holl faterion i'w hystyried, heb groesgyfeirio.

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015

37. Cafwyd sylwadau uniongyrchol gan saith o ymatebwyr ar y rheoliadau hyn.

38. Roedd cwestiwn saith o'r ddogfen ymgynghori yn holi a oedd digon o amser wedi'i ganiatáu ar gyfer y prosesau sy'n gysylltiedig â mater hysbysiadau a chyfarwyddiadau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod yr amserlenni'n ddigonol ac y dylai'r broses fod mor hwylus ag y bo modd yn rhesymol.

39. Nododd yr ymatebwyr nad oedd diffiniad o un rhan o'r broses, sef yr amserlen i'r Panel Adolygu lunio adroddiad. Gwnaethpwyd newid i'r rheoliadau ar gyfer hyn. Nawr, bydd y Cyngor Cyllido a chorff llywodraethu'r sefydliad a reoleiddir yn cael amserlen gan y Panel Adolygu ar gyfer ei adolygiad. Bydd hyn yn rhoi rhagor o eglurder ynglŷn â'r amserlenni, a hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r Panel sicrhau bod ganddo ddigon o amser i ystyried ceisiadau sy'n amrywio o ran cymhlethdod.

40. Roedd cwestiwn wyth yn holi a oedd yr wybodaeth i'w darparu gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd yn ddigonol a ph'un a oedd yna wybodaeth arall y dylid ei darparu. Nifer fechan o sylwadau a gafwyd. Nododd un ymatebydd fod angen i'r Cyngor Cyllido ddarparu 'sail resymegol' dros ei benderfyniad. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i roi rhesymau gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd[3]. Felly hefyd, awgrymodd un ymateb y dylid helaethu ar y rhesymau drwy ddweud ar ba sail y gwnaethpwyd y penderfyniad. Gan nad yw dyroddi hysbysiad neu gyfarwyddyd yn debygol ond ar ôl rhyngweithio helaeth gyda sefydliad a reoleiddir, ni chredid bod angen newid y rheoliadau. Nododd un ymatebydd fod tarddiad yr wybodaeth y seiliwyd y penderfyniad arni yn beth dymunol – mewn llawer o achosion mae hyn yn debygol o fod yn eglur.

41. Nododd un sylw y dylai asesu annibynnol fod yn nodwedd. Bydd y Panel Adolygu yn annibynnol, a bydd y mater gwaelodol mewn rhai amgylchiadau wedi codi oherwydd asesu allanol (e.e. ansawdd).

[3] Adran 43.

42. Roedd cwestiwn naw yn gofyn i'r ymatebwyr ystyried a yw'r seiliau ar gyfer gwneud cais am adolygiad yn ddigonol i ganiatáu her resymol. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y gellid ychwanegu seiliau i gwmpasu amgylchiadau pryd:

- nad yw'r Cyngor Cyllido wedi deall ffactor materol; ac
- mae'r Cyngor Cyllido wedi seilio ei benderfyniad ar wybodaeth a oedd yn anghywir neu'n anghyflawn.

43. Roedd yr ymatebion hyn yn agored i ddadansoddi manwl i benderfynu a ddarperir ar eu cyfer eisoes neu a oes angen ychwanegu seiliau. O bwyso a mesur, teimlid nad oedd angen newid y rheoliadau. Mae rheoliadau 7(b) ac (c) (yn y rheoliadau drafft) yn arbennig yn darparu cyfle rhesymol ar gyfer amrywiaeth o heriau.

44. Roedd cwestiwn 10 yn holi a oedd y drefn adolygu yn ddigon tryloyw a bod digon o wybodaeth ar gael. Roedd dau sylw yn dod i'r amlwg:

- mae'n aneglur pa mor derfynol yw adroddiad y Panel Adolygu ar y Cyngor Cyllido; ac
- nid oedd unrhyw gyfle i ymateb i unrhyw dystiolaeth y mae Panel Adolygu yn gofyn amdani.

45. O ran y cyntaf, mae'r rheoliadau'n datgan bod yn 'rhaid' i'r Cyngor Cyllido ystyried yr adroddiad. At hynny, fel corff cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor Cyllido weithredu'n rhesymol. O ran yr olaf, daethpwyd i'r casgliad y byddai newid y rheoliadau yn beth buddiol. Newidiwyd y rheoliadau drafft i ganiatáu i Banel Adolygu ofyn am sylwadau ar unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynir iddo (dan reoliad 9(3) yn y rheoliadau drafft). Bydd hyn yn galluogi sylwadau o'r fath ond yn caniatáu i'r Panel Adolygu sicrhau nad yw'r broses yn cael ei pheryglu gan gylchoedd niferus o dystiolaeth ac ymateb.

46. Roedd cwestiwn 11 yn gwahodd unrhyw sylwadau eraill. Roedd pryder arbennig ynglŷn ag amseriad dyroddi cyfarwyddyd mewn cysylltiad ag adran 11 o'r Ddeddf (cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu). Gellir dyroddi cyfarwyddyd a'i gyhoeddi cyn i unrhyw adolygiad ddod i ben (os yw'r sefydliad a reoleiddir yn gwneud cais am adolygiad). Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai 'niwed' diangen ddigwydd os bydd y Cyngor Cyllido ar ôl adolygiad yn penderfynu peidio â rhoi'r cyfarwyddyd. Newidiwyd y rheoliadau yng ngoleuni hyn. Nawr, ni chyhoeddir cyfarwyddyd hyd oni fydd unrhyw adolygiad wedi cael ei gwblhau.

47. Yn gryno, gwnaethpwyd tri newid i'r rheoliadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Newidiwyd fymryn ar drefn y rheoliadau hefyd, gan symud y rheoliad sy'n ymwneud â dyroddi cyfarwyddiadau dan adran 11 o'r Ddeddf i ddiwedd y rheoliadau i roi eglurder i'r darllenydd. Yn olaf, manteisiwyd ar gyfle i ailddrafftio rhai rhannau o'r rheoliadau i wella eglurder (nid yw bwriad y polisi wedi cael ei newid).

## Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

48. Cafwyd sylwadau uniongyrchol gan chwech o ymatebwyr ar y rheoliadau hyn.

49. Cafwyd sylwadau a oedd yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru ynghylch ffioedd a chymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys:

- terfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau rhyngosod;
- terfynau ffioedd ar gyfer astudio dramor;
- caniatáu ar gyfer cynnydd chwyddiannol a/neu bolisi mewn terfynau ffioedd.

50. Gwnaethpwyd nodyn o'r rhain. Mae'r rheoliadau'n ailadrodd terfynau ffioedd presennol sydd heb newid, a hefyd yn sicrhau y bydd y terfynau'n berthnasol dan y Ddeddf.

51. Ni wnaethpwyd newidiadau i'r rheoliadau hyn o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

## Materion cyfansoddiadol eraill

52. Ymgynghorwyd ynghylch nifer o faterion eraill. Ni wnaethpwyd unrhyw reoliadau mewn cysylltiad â'r rhain. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r rhain maes o law.